**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein drwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher, Ionawr 31ain, 2024 am 6.30 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Y Cynghorydd R. A. Davies | Y Cynghorydd C. R. Thomas | Y Cynghorydd E. W. Nicholas |
| | Y Cynghorydd D. W. Hopkins | Y Cynghorydd I. Rh. Llewelyn | Y Cynghorydd H. Davies |
| | Y Cynghorydd S. Roberts | Y Cynghorydd A. W. Jones | Y Cynghorydd P. H. Roberts |
| | Y Cynghorydd R. Barnes | Y Cynghorydd D. Thomas | Y Cynghorydd A.J. Evans |
| | Y Cynghorydd G. J. Davies | Y Cynghorydd E. Davies | Y Cynghorydd J. Tandy |
| **Yn mynychu arlein** | Y Cynghorydd K. D. L. Davies | | |
| **Ymddiheuriadau** | Y Cynghorydd S. Thomas | **Gyda gollyngiad** | |
| **Absennol** | Y Cynghorydd D. Jones | | |
| | Y Cynghorydd G. M. Harries | | |

**382.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.**

**Ymddiheuriadau gyda gollyngiad;** Y Cynghorydd S. E. Thomas

**Dim ymddiheuriadau wedi'u derbyn;** Y Cynghorydd D. Jones, Y Cynghorydd G. M. Harries.

**383.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT.**

**Derbyniwyd pedwar datganiad o fuddiant:**

- Y Cynghorydd P. H. Roberts parthed ag eitem agenda rhif 6 (ii) sef cais am gefnogaeth ariannol i Neuadd Goffa Penygroes.
- Y Cynghorydd E. W. Nicholas parthed ag eitem agenda rhif 7 (ng), eitem ynghylch Cyrtiau Tenis Llandybïe.

Cadeirydd

- Y Cynghorydd R. A. Davies parthed ag eitem agenda rhif 7 (ng) eitem ynghylch Cyrtiau Tenis Llandybïe.
- Y Cynghorydd S. Roberts parthed ag eitem agenda rhif 7; diweddariad TG Cyfarfodydd Ddi-bapur ac ystyried mabwysiadu'r polisi.

**384.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Dachwedd 29$^{ain}$, 2023.
- Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Dachwedd 29$^{ain}$, 2023.
- Cofnodion y Pwyllgor Cyflogaeth a gynhaliwyd ar Ionawr 18$^{fed}$, 2024.

**385.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cofnodion y Pwyllgor Cyflogaeth a gynhaliwyd ar Ionawr 18$^{fed}$, 2024.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi trafod gydag Un Llais Cymru ynghylch Gwerthuso Swyddi'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol, a'u bod wedi cyflwyno dyfynbris, sef cyfanswm o £490.00.

Roedd y Cynghorydd A. W. Jones am iddo gael ei nodi tra bod hyn yn ymarfer gwerth chweil, efallai y bydd canlyniadau wrth i'r ymarfer gwerthuso, o bosib, gyfeirio at yr angen am ragor o oriau, os bydd, yn y dyfodol, mwy o ddyletswyddau yn cael eu datganoli i'r Cyngor Cymuned. Roedd y Cynghorydd J. Tandy yn cytuno â hyn, ac efallai y byddwn yn wynebu sefyllfa lle y mae'n rhaid cyflogi aelodau staff ychwanegol os bydd yr oriau'n cynyddu uwchlaw'r 37.5 awr yr wythnos a ddyrennir i'r Clerc.

Cynhaliwyd pleidlais, ac roedd 10 o blaid a dau yn erbyn cynnal Ymarfer Gwerthuso Swyddi. Roedd dau wedi atal pleidlais.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn cadarnhau bod y Cyngor yn bwrw ymlaen i ymgysylltu ag Un Llais Cymru, fel y gallant gynnal yr ymarfer.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi derbyn pris o £1,080.00 oddiwrth Cronfa Bensiwn Dyfed i wneud y gwaith gweinyddol i sefydlu darpariaeth bensiwn ar gyfer y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol, a gofynnodd bod hyn yn derbyn sêl bendith.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn cadarnhau bod y Cyngor yn bwrw ymlaen i ymgysylltu â Chronfa Bensiwn Dyfed i wneud y gwaith.

Cadeirydd

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi archwilio'r hyfforddiant CILCA drwy law Cymdeithas Clercod Cynghorau Cymuned ac yn gallu cadarnhau pris o £50.00 a TAW am y seminar rhagarweiniol, £250 a TAW am yr Hyfforddiant Portffolio a £450.00 a TAW i gwblhau'r hyfforddiant 12-mis.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn bwrw ati i ddilyn yr hyfforddiant am bris o £750.00 a TAW.

**386.**

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

**387.**

**GOHEBIAETH**

**(i) Adroddiadau'r Heddlu ar Ionawr 1af, 2024.**

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais a Throseddau Rhyw | **7** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **3** |
| Ymddygiad gwrth-gymdeithasol | **3** |
| Meddu ar arfau | **1** |

| **Penygroes, gan gynnwys Blaenau a Chaerbryn;** | |
|---|---|
| Trais a Throseddau Rhyw | **2** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **0** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **1** |
| Cyffuriau | **0** |

| **Saron a Chapel Hendre** | |
|---|---|
| Trais a Throseddau Rhyw | 2 |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | 1 |
| Ymddygiad gwrth-gymdeithasol | 1 |
| Y Drefn Gyhoeddus | 5 |

Cadeirydd

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie | Police.uk (www.police.uk)

Roedd y Clerc wedi cynnig gwahodd ein Swyddog Heddlu lleol i'r cyfarfod nesaf er mwyn parhau i gynnal deialog cyson ynghylch y materion a'r datblygiadau yn yr ardal; derbyniwyd hyn, a bydd y Clerc yn gwahodd yr Heddlu i fynychu'r Cyfarfod Cyffredin nesaf, a gynhelir ar ddydd Mawrth, Chwefror 27ain.

**(ii) Llythyr oddiwrth Peter Roberts, Ysgrifennydd Neuadd Goffa Penygroes.**

Roedd y Clerc wedi gwahodd y Cynghorydd P. H. Roberts i ddarllen llythyr a oedd wedi ysgrifennu ar ran Neuadd Goffa Penygroes, yn gofyn am unrhyw gyfraniad tuag at y gost, sef £8,000, o atgyweirio'r boeler, sydd yn rhan allweddol o gadw'r neuadd ar agor. Roedd y neuadd wedi talu'r swm o'i gronfa wrth gefn, ond roedd hyn yn golygu eu bod nawr yn gweithredu o dan y trothwy arian wrth gefn corff cyfansoddiadol cymunedol, fel yr amlinellir gan y Comisiwn Elusennau.

Roedd y Cynghorydd P. H. Roberts hefyd wedi cadarnhau eu bod wedi archwilio pob ffynhonell grant arall, ond roedd pob un naill ai'n amhriodol, neu wedi'i defnyddio o'r blaen i ariannu ceisiadau eraill.

Roedd y Cynghorydd D. Thomas am gefnogi'r cais oherwydd bod y neuadd yn gweld llawer o ddefnydd ac yn adnodd allweddol i'r gymuned, gyda grwpiau o bob oedran yn defnyddio'r neuadd yn wythnosol.

Holodd y Cynghorydd A. E. Evans paham fod boeler tanwydd ffosil wedi'i ddefnyddio, yn hytrach na manteisio ar y cyfle o ystyried dewis sy'n defnyddio egni mwy gwyrdd. Atebodd y Cynghorydd P. H. Roberts drwy esbonio er bod y gost yn uchel iawn, yn y bôn dewiswyd boeler o'r fath oherwydd bod rhaid i'r pwyllgor gadw'r neuadd ar agor, a gosod boeler o'r un fath a'r cyn-foeler oedd y datrysiad rhataf a chyflymaf

Roedd y Cynghorydd J. Tandy o'r farn bod y neuadd hon, ynghyd ag ychydig eraill, yn ganolfannau cymunedol allweddol a dylid edrych yn ffafriol ar eu cefnogi.

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies am wybod beth oedd maint balans y cyfrifon, ac roedd y Cynghorydd P. H. Roberts wedi cadarnhau taw £32,000 oedd y cyfanswm, yn is na'r trothwy gweithredol a argymhellir, sef £52,000 y flwyddyn.

Er ei fod ef a'i gyd-gynghorwyr yn cydymdeimlo, roedd y Cynghorydd A. W. Jones am wybod a oedd hyn yn gais Adran 137 neu, yn wir, a ddylid defnyddio arian trethdalwyr i helpu sefydliad nad yw, o ran asedau yn, eiddo i'r Cyngor Cymuned. Roedd y Cynghorydd P. H. Roberts am iddo gael ei nodi bod yr holl waith sy'n cael ei wneud yn y neuadd yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr, er budd y gymuned.

Wrth ystyried y cais hwn, roedd y Clerc wedi cynghori bod angen ystyried gosod cynsail, a bod angen adlewyrchu unrhyw gefnogaeth yn y gyllideb. Roedd y Cynghorydd P. H. Roberts o'r farn bod cynsail eisoes wedi'i osod, gyda'r dyfarniadau a wnaethpwyd i, er enghraifft, Cwmgwili. Gofynnodd y Cynghorydd A. W. Jones os oedd cais wedi'i wneud i'r Cyngor Sir. Cadarnhaodd y Cynghorydd P. H. Roberts bod hyn wedi'i wneud, ond nid oedd grant ar gael. Roedd y Cynghorydd A. W. Jones yn teimlo bod hyn yn adlewyrchiad o'r penbleth y mae'r Cyngor Cymuned yn wynebu, a bod arian cyfatebol bob amser yn ystyriaeth pan yn gwneud dyfarniadau ar gyfer gwariant cyfalaf.

Roedd y Cynghorydd E. Davies wedi cynnig awgrymiad a wnaethpwyd gan y Clerc, sef ei fod yn archwilio cyfreithlondeb cynnig unrhyw gefnogaeth ariannol, a'r ffordd y gallai'r fath gefnogaeth gael ei gynnig. Hefyd, awgrymodd bod y Cynghorydd P. H. Roberts yn cyflwyno cyfrifon i gefnogi canfyddiadau'r Clerc.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn archwilio'r sefyllfa ac y adrodd yn ôl ynghylch ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a gynhelir ar Chwefror 15fed, fel rhan o drafodaethau'r gyllideb.

**(iii) Llythyr at Adam Price ynghylch y cyngor cymuned a goleuo'r ffordd**

Eglurodd y Clerc prif elfennau llythyr a dderbyniwyd oddiwrth y Cynghorydd K. D. L. Davies yn nodi gohebiaeth rhwng Adam Price AS ac Arwel Price, Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghylch goleuo ystâd breifat nad yw wedi'i fabwysiadu, sef ystâd Delfryn yn Saron. Diben y llythyr oedd ceisio gwybodaeth er mwyn cefnogi cais gan breswylwyr bod y Cyngor Cymuned yn cynnal a chadw goleuadau stryd yn y lleoliad hwn.

Esboniodd y Clerc bod rhaid i'r Cyngor Cymuned fod yn ofalus rhag gosod cynsail, gan fod llawer o ystadau eraill tebyg nad ydynt wedi'u mabwysiadu ar draws yr ardal.

Roedd y Cynghorydd A. W. Jones yn cytuno y gallai hyn achosi canlyniadau i gyllideb y Cyngor Cymuned a lefel y praesept a godir yn y blynyddoedd i ddod, ac roedd o'r farn bod y mater y tu hwnt i gylch gorchwyl y Cyngor Cymuned a dylai'r preswylwyr archwilio eu hyswiriant eu hunain. Fel ffordd o ategu at hyn, roedd y Clerc wedi cynnig esiampl Parc Pencae yn Llandybïe, a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir yn dilyn gwaith ar y ffordd a'r goleuadau, ac hynny ond ar ôl i'r bond a ddodwyd yn ei le gan y contractwr gael ei ddefnyddio i dalu'r gost.

Esboniodd y Cynghorydd K. D. L. Davies bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r preswylwyr a bod y broblem ond y effeithio ar ran ganol yr ystâd. Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Tandy ei fod yn cydymdeimlo, ond bod hyn yn broblem drwy'r sir gyfan.

**Cynigiwyd** gan y A. W. Jones nad oedd y Cyngor Cymuned yn gallu bod o gymorth, ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cynghorydd R. A. Davies.

Cadeirydd

**(iv) Llythyr o ddiolch oddiwrth y Cynghorydd A. W. Jones**

Cofnodwyd derbyn llythyr o ddiolch oddiwrth y Cynghorydd A. W. Jones am y blodau a dderbyniwyd adeg marwolaeth ei fam.

**388.**

**Adroddiad y Clerc 26/01/24**

**AT: Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau:**

**(I) Diweddariad Ynghylch Prosiect Parciau Llandybïe:**

- **Cwblhawyd y MUGA** ychydig cyn y Nadolig; mae ond angen i'r contractwr Wickstead Lesiure orffen marcio'r arwyneb chwarae, ac mae'r cwmni wedi addo gwneud hyn yn ystod yr wythnos nesaf.
- **Grantiau Adran 106 i ardal y parc,** mae'r broses o osod Ardal Drampolîn gyda 3 darn o offer ar waith ar hyn o bryd; roedd y gwaith wedi'i rhwystro gan y tywydd garw diweddar, ond mae'n debyg y bydd yn cael ei orffen yr wythnos nesaf am y pris a gytunwyd o £24,475.36 a TAW. Y gobaith yw y bydd modd cwblhau'r prosiect hwn ochr yn ochr â'r gwaith ar y MUGA.
- Gorffenwyd y gwaith ar **y gampfa awyr-agored** yn gynnar ym mis Rhagfyr am bris o £9,799.20; bydd yn darparu ardal gampfa pob-tywydd gyda chech darn o offer. Mae'r gwaith wedi'i dalu amdano ac mae cais Adran 106 gwerth £8,166.20 wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin. Bydd y TAW ar y taliad hwn, sef £1,633.20, yn cael ei hawlio'n ôl.

**(ii) Saron a Chapel Hendre 106.**

Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin parthed â dechrau cynllunio gwario'r ddau swm o £22,320.00 am ddarpariaeth addysg pellach yn Saron a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili. Maen nhw wedi'i hysbysu nad yw'r contractwr eto wedi trosglwyddo'r arian iddynt. Derbyniwyd ymateb pellach ym mis Ionawr yn cadarnhau taw dyma oedd y sefyllfa gyfredol o hyd.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Tandy os oedd modd archwilio cost y gwaith er mwyn asesu hyn fel prosiect cymunedol yng nghyllidebau'r dyfodol.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn archwilio'r sefyllfa ac yn adrodd yn ôl mewn Cyfarfod Cyffredin yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**(b) Llwybrau troed.**

Cadeirydd

Trefnwyd, ac yna canslwyd, cyfarfod gyda thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, i'w gynnal ar Fedi 19eg; mae hyn wedi'i ail-drefnu a chynhaliwyd cyfarfod ar Hydref 5ed. Trafodwyd y llwybrau troed canlynol:

- **Saron 51A/NYC;** Roedd y Clerc wedi cynnal cyfarfod safle gyda swyddogion y Cyngor Sir ac maen nhw wedi esbonio nad oes hawl tramwy cyhoeddus, a bod y gât sydd yn ei le wedi'i etifeddu o danwariant prosiect a gynhaliwyd tua 10 mlynedd yn ôl. Ni wireddwyd y gwaith o adeiladu'r llwybr ac nid oes, ar hyn o bryd, ganddynt gyllideb i ystyried unrhyw waith yn yr ardal.
- **Capel Hendre (dau lwybr troed) 51/12;** Roedd y Clerc wedi pwyso ar y Tîm Priffyrdd am ymateb ynghylch yr ymrwymiad i dorri'r glaswellt at y dyfodol, ac maen nhw wedi cadarnhau bod hyn ar waith.
- **Bonllwyn 61/106;** Mae hwn yn hawl tramwy cyhoeddus sydd wedi'i esgeuluso am rai blynyddoedd, ac mae'r Clerc wedi gofyn unwaith eto am ddiweddariad gan y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus ynghylch cynnal arolwg fel y cynigiwyd yn flaenorol, ac ystyried y posibilrwydd o'i ail-agor.
- **Caerbryn 51/56;** Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus, sydd wedi ymrwymo at atgyweirio'r bontbren. Maen nhw'n honni bod y difrod i'r llwybr wedi'i achosi gan ddŵr yn llifo oddiar y briffordd. Erbyn hyn mae'r Clerc wedi ysgrifennu at dîm Priffyrdd Sir Gaerfyrddin i gychwyn deialog, ac wedi dilyn hyn i fyny gyda chais am ddiweddariad.
- **Penygroes 51/34 a 51/35, 51/33;** Tra bod ein contractwr yn ystyried 51/34, mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio 51/13 er mwyn cael y perchennog i dorri'r canghennau sy'n bargodi dros y llwybr; mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am ddiweddariad. Mae 51/35 yn dal i gael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad Gilfach Iago. Mae'r Clerc wedi dilyn hyn i fyny drwy ofyn am ddiweddariad.
- **51/51**; Mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn delio â hyn oherwydd bod preswylydd wedi adeiladu sail i garej ar draws hawl tramwy cyhoeddus, ac mae preswylydd arall wedi gosod offer chwarae drosto
- **51/24;** Mae'r Cadeirydd Carey Thomas wedi amlygu'r llwybr troed hwn, ac mae'r Clerc wedi ysgrifennu at y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus am eglurhad ynghylch yr hyn sy'n bosibl i'w wneud.

**(c) Archwiliadau**

**(i) Archwiliad Allanol Blynyddol 2022/23.**

Roedd y Clerc wedi dilyn y mater i fyny mewn ebost a anfonwyd ar Dachwedd 20fed, ac yn aros am ymateb ynghylch yr Archwiliad Allanol ar gyfer 2022/23. Derbyniwyd ebost arall oddiwrth Gayle Howard o Swyddfa Archwilio Cymru ar Ionawr 20fed. Mae'r Clerc wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdano.

________________________

Cadeirydd

**(ch) Clwb Rygbi Penygroes RFC a chloi'r gât gyda'r nos.**

Erbyn hyn mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda Menter Cwm Gwendraeth i ddatrys y mater o gloi'r gât gyda'r nos. Mae rota wedi'i gytuno a'i ebostio at yr holl bartïon i amlinellu'r trefniadau cloi'r gât.

**(d) Digwyddiad ynghylch car yn gyrru drwy ffens ym Mharc Penygroes.**

Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais gwerth £647.00 am y costau atgyweirio a £291.15 fel tâl am ei amser ef. 'Rydym yn aros am gadarnhad bod y cais wedi'i dderbyn, a thaliad gan gwmni Yswiriant Admiral.

**(dd) Diweddariad ynghylch y trefniadau bancio arlein.**

Mae'r Clerc wedi sefydlu'r llofnodwyr ar gyfer bancio arlein; byddant yn derbyn ffurflenni i'w cwblhau a'u dychwelyd at Fanc Lloyds. Unwaith bod y broses hon wedi'i chwblhau bydd y Clerc yn dileu enw'r Cynghorydd E. W. Nicholas fel llofnodwr.

Erbyn hyn mae'r Clerc wedi dechrau'r broses newydd o dalu'r biliau a debydau uniongyrchol drwy'r system bancio arlein wedi iddo gynnal y cyfarfod olaf gyda'r tri llofnodwr awdurdodedig a enwebwyd yn Rhagfyr ac Ionawr. Mae'r rhestr o lofnodwyr newydd yn cynnwys y Cynghorydd Eifion Davies, y Cynghorydd Karen Davies a'r Cynghorydd Simon Roberts.

**(e) Diweddariad ynghylch y Rheolau Sefydlog Cymraeg/ Saesneg.**

Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris o £478.25 heb TAW oddiwrth ein cyfieithydd arferol, Martin Davies, am gyfieithu'r Rheolau Sefydlog i Gymraeg. Mae'r fersiwn Saesneg wedi'i diweddaru ar y Wefan.

**Cynigiwyd** gan y Cynghorydd D. Thomas ein bod yn bwrw ymlaen gyda'r cyfieithiad, ac **eiliwyd** hyn gan y Cynghorydd P. H. Roberts.

**(f) Cyfarfodydd Ddi-bapur, Diweddariad TG ac ystyried mabwysiadu polisïau.**

Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris ffurfiol o £1,545.99 am 10 Teclyn Symudol (Llechi) ac mae hyn yn cynnwys cesys cario amddiffynol. Mae'r Clerc yn dilyn i fyny dau ddyfynbris cymharol.

Bydd y meini prawf yn cynnwys y gofyn am ddarparieth TG uwchlaw'r hyn sydd gan y cynghorwyr ar hyn o bryd, a'u bod yn derbyn treuliau blynyddol am hyn fel rhan o lwfans y cynghorydd. Bydd hefyd yn cynnwys yr angen am ddarpariaeth TG ar wahan er mwyn sicrhau cydymffurfio â GDPR a diogelu data a nid, er enghraifft, yn rhannu cyfrifiaduron teuluol.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn cyflwyno argymhelliad cost terfynol yn y drafodaeth ar y gyllideb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhelir ar Chwefror 15fed.

______________________________

Cadeirydd

**(ff) Diweddariad hawliad TAW ac incwm o'r buddsoddiadau:**

Mae'r hawliad o £5,206 am y cyfnod hyd at Ebrill 2023 wedi'i dderbyn, a'r hawliad am y 6 mis hyd at fis Hydref 2023, sef £4,657.32 hefyd wedi'i dderbyn.

Mae'n werth nodi bod £4,839.57 arall, ar ffurf arian cyfalaf, wedi'i dderbyn fel incwm o fuddsoddiadau yng nghyfrif cynilo Cymdeithas Adeiladu Abertawe.

**(g) Tendrau sydd i'w hanfon, ac a anfonwy:**

Mae'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol wedi anfon a derbyn y tendrau am Wasanaeth Arolygu'r Parciau sydd i ddod i ben yn Ionawr.
Dyma'r tri dyfynbris a dderbyniwyd:

- Cyngor Cymuned Llanon £4,092.00 dim TAW.
- Dragon Play & Sports £8,999.00 a TAW.
- Eammone Davies, Arolygydd Parciau annibynnol, £5,000.00 dim TAW.

**Penderfynwyd** derbyn y dyfynbris a dderbyniwyd oddiwrth Gyngor Cymuned Llannon.

**Cynnal a Chadw'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus** Mae'r tendrau wedi'u hanfon ac 'rydym yn aros am ymatebion erbyn y dyddiad cau a bennwyd, sef yn gynnar ym mis Chwefror.

**Cynnal a Chadw Torri'r Glaswellt yn y Parciau** Mae'r cytundeb, sydd yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol. Maen nhw yn y broses o lunio'r rhestr a pharatoi'r dogfennau yn barod i'w hebostio yn gynnar ym mis Chwefror.

**Hyfforddiant Cynnal a Chadw'r Parciau;**

Mae'r Clerc wedi dod o hyd i wasanaeth Arolygydd Iechyd a Diogelwch cymwysedig sy'n cynnig hyfforddiant arolygu parciau. Mae'n debyg, ar hyn o bryd, y bydd y cwrs dau-ddiwrnod yn costu £650.00; bydd hyn yn galluogi'r Clerc i gynnal yr arolygon misol a bydd Arolwg Annibynnol Blynyddol o'r Parciau'n dilysu ei waith. Rhaid i'r Cynghorwyr benderfynu os yr ydynt yn cytuno ar y cynnig hwn, cynnig a fydd yn arbed £4,200 y flwyddyn.

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies a'r Cynghorydd A. W. Jones ill dau o'r farn ei bod yn allweddol bwysig bod arbenigwr Iechyd a Diogelwch yn gwirio ei fod yn dderbyniol bod Cyngor Cymuned yn cynnal eu arolygon ffurfiol eu hunain, a bod hyn yn gyfreithiol dderbyniol gan lys barn pe byddai unrhyw ddigwyddiad yn codi.

Cadeirydd

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn gofyn cyngor ac eglurhad proffesiynol gan arbenigwr Iechyd a Diogelwch cymwysedig, ac yn gofyn cyngor Un Llais Cymru, gan gyflwyno'r cyfan gerbron y Cyfarfod Cyffredin a gynhelir ar Chwefror 27ain, 2024.

**(ng) Gwaith yn yr arfaeth i gwblhau'r gyllideb erbyn Cyfarfod Cyffredin Ionawr 2024.**

Mae'r Clerc yn y broses o brisio'r prosiectau canlynol er mwyn cwblhau'r cynnig cyllideb ar gyfer 2024/25 er mwyn ei chyflwyno gerbron y Cyfarfod Cyffredin hwn.

- **Cyrtiau Tenis Llandybïe.**

**Diweddariad;** Tra bydd angen llunio tendr ffurfiol mae'r Clerc wedi cwrdd â dau gwmni i holi ynghylch y cost tebygol; roedd un wedi rhoi ffigwr bras a'r llall wedi cyflwyno dyfynbris manwl. Oherwydd efallai y bydd Proses Tendr yn cael ei gynnal yn nes ymlaen, bydd y Clerc yn datgelu'r costau hyn yn y cyfarfod.

Mae'r Clerc wedi gohebu gyda Tenis Cymru, sy'n gysylltiedig â'r Lawn Tennis Association ac maen nhw wedi cynnig gwybodaeth ynghylch ceisio am grantiau, ac wedi awgrymu y byddai cynnig ariannu tua 55% i 60% o'r gost yn ddoeth.

Oherwydd taw'r Cyngor Cymuned sy'n dal prydles yr adnodd eglurodd y Clerc y bydd, rhywbryd yn ystod y ddwy flynedd nesaf, rhaid uwchraddio'r wyneb er mwyn cynnal a chadw'r ased ar ran y cyhoedd a'r Clwb Tenis sy'n talu ffi blynyddol. Dywedodd y Clerc y byddai'n ymchwilio'r arian grant sydd ar gael i gyfrannu at gost y cyrtiau, a chyhoeddi tendr yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 i weld os oes modd cynnwys y prosiect yng nghyllideb 2025/26.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn archwilio'r grantiau ac yn cydweithio gyda'r Clwb Tenis i lunio pecyn cymorth, i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024.

- **Siglenni ym Mharciau Heol Spien a Gors Ddu:**

**Diweddariad:** Y gost cychwynnol am y ddwy siglen fydd Gorsddu = £4649.44, Spien = £4649.44. Cyfanswm cost yr holl waith fydd £9298.88 dim TAW.

**Penderfynwyd** cynnwys y gost yn y gyllideb gymunedol ar gyfer 2024/25.

- **'Prosiect plannu coed cymuned gyfan' o Goed Criafol**

**Diweddariad:** Roedd y Clerc wedi cwrdd â Swyddogion Cadwraeth Cyngor Sir Caerfyrddin a oedd wedi cynnig darparu manylion cyflenwyr Coed Criafol, a chyngor am ddim ynghylch eu plannu. Roeddent wedi awgrymu cyllideb o £1,000 am brynu a phlannu'r coed ledled Ardal Cyngor Cymuned Llandybïe.

**Penderfynwyd** cynnwys y gost yn y gyllideb gymunedol ar gyfer 2024/25.

Cadeirydd

- **Tybiau plannu ger Arwyddion Pentref:**

**Diweddariad;** Mae’r Clerc wedi archwilio dyfynbrisiau arlein ac wedi darganfod y bydd y gost yn £1,159.80 am ugain twba pren. Bydd hyn yn cynnwys TAW a chyflenwi’r offer, ond ddim y costau gosod neu chynnal a chadw.

**Penderfynwyd** bod y pris yn cael ei archwilio ymhellach er mwyn pennu’r costau gosod, cynnal a chadw, pridd, blodau a phu’n ai y byddai cymunedau am fabwysiadu pob plannwr. Yna byddai modd cynnig y prosiect i’w ystyried yng nghyllideb cymunedol 2025/26.

- **Bwrdd Tenis Fwrdd ym Mharc Penygroes:**

<u>Cyflenwi a Gosod (Y gwaith gosod i’w gynnal ar unrhyw adeg)</u>

1 x BX/SG 3024-GG Bwrdd Tenis Fwrdd = £592.50
1 x BX/SG INSTALL Gosod ar laswellt neu darmac = £900.00
1 x BX/SG Cost cyflenwi = £150.00

Cyfanswm (heb TAW) = £1642.50

**Penderfynwyd** cynnwys y gost yn y gyllideb gymunedol ar gyfer 2024/25.

**(h) Banc Y Ddraenen;**

Mae’r Clerc wedi cyfarfod ddwywaith ar y safle gyda Rachel Carter, Un Llais Cymru, a swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin, ac mae ganddo gynllun manwl a chynnig ar gyfer y safle.  Maen nhw hefyd wedi dweud bod grantiau ar gael i dalu’r holl gost, a hynny i’w benderfynu. Ar hyn o bryd mae’r Clerc yn gweithio gyda’r Swyddog Gweinyddol ar ymarfer ymgynghori gydag Ysgolion a Grwpiau Lleol. Hoffai’r Clerc awgrynu bod cyfarfod o Bwyllgor yr Amgylchedd yn cael ei drefnu, i’w gynnal ar ddydd Iau, Chwefror 15fed am 6.30yh.

**(i) Hyfforddiant Diffibrilwr:**

Mae’r Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Calon Heart i drefnu Hyfforddiant Diffibrilwr; mae’n aros i glywed sut y bydd hyn yn cael ei strwythuro a beth fydd y gost a’r dyddiadau sydd ar gael. Byddai modd cynnig yr hyfforddiant hwn i Gynghorwyr a’r gymuned ehangach.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn archwilio cost yr uchod.

**(l) Cynllun Busnes Rheoli Asedau.**

Mae’r Clerc yn gweithio ar hwn, ac wedi cynnal dau Arolwg Parc manwl yn Rhagfyr ac Ionawr i weld pa welliannau sydd eu hangen a beth yw oes bywyd yr offer. Bydd yn rhoi diweddariad i’r Cynghorwyr yn y Cyfarfodydd Cyllid a Chyffredin a gynhelir ym mis Chwefror.

.

______________________________

Cadeirydd

**(ll) Cyfarfod Cyllid.**

Hoffai'r Clerc awgrymu cynnal y cyfarfod ar ddydd Iau, Chwefror 15fed, cyn neu ar ôl cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd yr awgrymwyd cynnal ar yr un noson.
**Penderfynwyd** derbyn hyn, a bod y Cyfarfod Cyllid yn dechrau am 6.30yh a Phwyllgor yr Amgylchedd am 7.30yh.

**(m) Difrod gan storm.**

Roedd y storm ddiweddar wedi peri i bibell fyrstio yn Sied Fowlio Llandybïe; cafodd ei hatgyweirio gan gontractwr lleol ar y diwrnod y cofnodwyd y digwyddiad. Hefyd, roedd coeden fechan wedi cwympo ym mharc Llandybïe; ni achoswyd unrhyw ddifrod ac mae'r goeden wedi'i chlirio i ffwrdd.

**(n) Diweddariad ynghylch Grantiau Cymunedol ar gyfer Cyfarfod Cyllid mis Chwefror.**

Bydd y Swyddog Gweinyddol yn cynnig diweddariad ynghylch y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yn hyn, ond ni dderbynnir unrhyw geisiadau ychwanegol wedi Chwefror 9fed, 2024.

Dai Nicholas – Clerc

Ionawr 26ain 2024.

**389.**

**Diweddariad ynghylch Gilfach Iago**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn ymateb oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud eu bod yn dilyn camau cyfreithiol er mwyn paratoi'r dogfennau angenrheidiol (gan gynnwys cynlluniau, amserlen, hysbysiadau ac hysbysebion); nodwyd y bydd cyfnod o ymgynghori statudol 28-diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r hysbyseb yn berthnasol. Yn ystod y cyfnod hwn bydd modd codi unrhyw wrthwynebiad tra'n ceisio am ddyddiad i gael ei bennu yn llys yr ynadon

O ran y cynllun, mae hwn yn dal i gael ei adolygu gan y peirianwyr cynllunio i weld os oes modd gwneud y llwybr yn addas ar gyfer Teithio Llesol. Unwaith bod hyn wedi'i sefydlu bydd cynllun manwl o'r llwybr yn cychwyn yn y flwyddyn newydd gyda'r nod o wneud y gwaith adeiladu yn y Flwyddyn Ariannol 2024/25.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn diweddaru Cyfarfodydd Cyffredin y dyfodol ynghylch unrhyw gynnydd.

Cadeirydd

**390.**

## MATERION ARIANNOL

Dosbarthwyd yr wybodaeth ariannol canlynol gan y Clerc tridiau cyn y cyfarfod:

**INCWM**

### (i) Taliadau ar gyfer Rhagfyr ac Ionawr.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siec | 01/11/2023 | 6137 | Cyllid y Wlad hyd at Dachwedd 5th 2023 | 1010.23 |
| Siec | 01/11/2023 | 6138 | Siec a ail-gyflwyniwyd i'r National Playing Fields Association | 650.00 |
| Siec | 02/11/2023 | 6139 | Siec a ganslwyd Newhall Janitorial | 0.00 |
| Siec | 02/11/2023 | 6140 | Newhall Janitorial Supplies - 0046257 | 217.06 |
| Siec | 02/11/2023 | 6141 | Martin Davies - Cyfieithu Polisi, Cofnodion Cyffredin a Chynllunio, Medi 2023 | 291.85 |
| Siec | 02/11/2023 | 6142 | Morgan and Morgan, deunydd swyddfa, 00079340 – SOR 00116773 | 47.84 |
| Siec | 02/11/2023 | 6143 | EDF Sied Ynni- Heol Woodfield, Llandybïe, Hydref 000017113095 | 24.32 |
| Siec | 02/11/2023 | 6144 | EDF Sied Ynni – Hydref/Tachwedd SIEC A GANSLWYD | 0.00 |
| Siec | 06/11/2023 | 6145 | Harcourt Litho arwyddion i'r parciau yn Llandybïe a Phenygroes 148306 | 122.40 |
| Siec | 06/11/2023 | 6146 | Neuadd Lesiant Penygroes - llogi'r neuadd ar gyfer y noson wobrwyo | 60.00 |
| Siec | 06/11/2023 | 6147 | CCW Law – Cyngor ynghylch y Tenis a Pharc Llandybïe P2311 | 132.00 |
| Siec | 06/11/2023 | 6148 | Martin Davies – Cyfieithu Cofnodion cyfarfodydd Cyffredin a Chynllunio, Hydref 2023 | 277.87 |
| Siec | 07/11/2023 | 6149 | Morgan and Morgan - Llygoden i gyfrifiadur y Swyddog Gweinyddol 00116157 | 10.79 |
| Siec | 07/11/2023 | 6150 | Morgan and Morgan – diweddaru cyfrifiadur y Swyddog Gweinyddol - 0015926 | 24.00 |
| Siec | 07/11/2023 | 6151 | Morgan and Morgan – technegydd i'r Siambr ar gyfer hyfforddiant ar y sganiwr | 48.00 |
| Siec | 07/11/2023 | 6152 | Morgan and Morgan – gosod dilysydd ebost ar liniaduron y cynghorwyr | 24.00 |
| Siec | 07/11/2023 | 6153 | D. S. Nicholas, Cyflog y Clerc, Tachwedd 2023 | 2285.03 |
| Siec | 07/11/2023 | 6154 | Sian Taylor, Swyddog Gweinyddol, Tachwedd 2023 | 625.20 |
| Siec | 07/11/2023 | 6155 | Hefin Jones, Cyfieithu yng nghyfarfodydd Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf, a Medi | 425.00 |
| Siec | 9/11/2023 | 6156 | Cyllid y Wlad -siec a ail-gyhoeddwyd ar gyfer Awst 2023 | |
| Siec | 9/11/2023 | 6157 | EDF Energy - Sied a grîn fowlio Llandybïe, Hydref 1af i Hydref 31ain 000017126975 | 24.55 |
| Siec | 9/11/2023 | 6158 | EDF Energy – Pafiliwn Chwaraeon Saron, 04/10 hyd at 31/10/2023 | 86.58 |
| Siec | 9/11/2023 | 6159 | EDF Energy - Pafiliwn Heol Bryncwar, 04/10 hyd at 31/10/2023 | 46.07 |
| Siec | 13/11/2023 | 6160 | Robert Gleaves, cwympo coed ym Monllwyn | 40.00 |
| Siec | 13/11/2023 | 6161 | D. S. Nicholas, costau teithio a threuliau post y Clerc, Mawrth i Dachwedd 2023 | 241.79 |
| Siec | 14/11/2023 | 6162 | EDF Energy - Llifoleuadau Capel Hendre, 02/10 hyd at 01/11/2023 | 14.40 |

Cadeirydd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siec | 14/11/2023 | 6163 | D. S. Nicholas, ad-dalu'r Clerc am Vodafone yn y siambr, Ebrill i Dachwedd 2023 | 220.16 |
| Siec | 17/11/2023 | 6164 | K.D. Gardening and waste – Gwasanaethau Toiled 01 – 30 Tachwedd | 862.50 |
| Siec | 20/11/2023 | 6165 | BT HOME – Ffôn a band Llydan y Swyddfa MO12&C | 53.32 |
| Siec | 21/11/2023 | 6166 | Phil Waites Design, arwydd ym Mhenygroes, stand a phanel 023/086 | 1864.40 |
| Siec | 13/12/2023 | 6167 | J.T Services - torri'r ymylon glaswellt yng Nghorsddu ym mis Hydref - Anfoneb 274 | 80.00 |
| Siec | 13/12/2023 | 6168 | BROXAP, Campfa Awyr-agored, Parc Llandybïe, Anfoneb 312875 | 7519.20 |
| Siec | 13/12/2023 | 6169 | Cyngor Sir Caerfyrddin, Chwarter 2, Cynnal a Chadw'r Tiroedd, Anfoneb 97270806 | 8613.25 |
| Siec | 13/12/2023 | 6170 | Martin Davies, Cyfieithu'r Cofnodion Cyffredin a Chynllunio, Tachwedd 2023 | 305.50 |
| Siec | 13/12/2023 | 6171 | Martin Davies, Cyfieithu'r Cofnodion Cymunedol a Chyllid, Tachwedd 2023 | 192.40 |
| Siec | 13/12/2023 | 6172 | Cyngor Cymuned Llanddarog, Cyfraniad at Drwydded Zoom, | 240.00 |
| Siec | 13/12/2023 | 6173 | Dŵr Cymru, 6 mis, Pafiliwn Chwaraeon Saron, Anfoneb 4051901780 | 183.31 |
| Siec | 13/12/2023 | 6174 | Hefin Jones, cyfieithu yng nghyfarfodydd Tachwedd | 170.00 |
| Siec | 13/12/2023 | 6175 | Dynevor Tree Services, toriad un-tro, 50/150, Anfoneb 325 | 150.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siec | 14/12/2023 | 6176 | Cyflog D. S. Nicholas, Rhagfyr 2023, gan gynnwys Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2023 | 2982.26 |
| Siec | 14/12/2023 | 6177 | Sian Taylor, Cyflog Rhagfyr 2023, gan gynnwys Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol a thandaliad wedi'i ôl-ddyddio i Awst 1af, 2023 | 1133.98 |
| Siec | 14/12/2023 | 6178 | BROXAP, Cost Gosod y Gampfa Awyr-agored, Parc Llandybïe, Anfoneb 313239 | 2280.00 |
| Siec | 19/12/2023 | 6179 | K D Gardening and Waste, gwasanaethu'r Toiledau yn Rhagfyr, Anfoneb rhif 140 | 891.25 |
| Siec | 19/12/2023 | 6180 | BT Home Office, 19/11/2023 hyd at 19/12/2023, Anfoneb rhif M001R2 | 42.71 |
| Siec (Llyfr newydd) | 19/12/2023 | 6361 | Cyllid y Wlad, taliad am y mis a ddaw i ben Ionawr 5, 2024 | 2021.15 |
| Siec | 08/01/24 | 6362 | EDF Energy, Pafiliwn Chwaraeon Saron, Anfoneb rhif 000017635474 | 21.83 |
| Siec | 20/12/2023 | 6363 | SSE Energy Supply Ltd, Toiledau Llandybïe, 22/08 hyd at 06/12/2023, anfoneb rhif 87001115588 | 95.93 |
| Siec | 20/12/2023 | 6364 | SSE Energy Supply Ltd, Swyddfa a Siambr Llandybïe, 22/08 hyd at 06/12/23, anfoneb rhif 8700098428 | 324.67 |
| Siec | 8/01/2024 | 6365 | EDF Energy, Bowls a Thenis Llandybïe, 01/11 hyd at 30/11/23, anfoneb rhif 000017568420 | 145.91 |
| Siec | 10/01/2023 | 6366 | EDF Energy, Sied yn y grîn fowlio, anfoneb rhif 000017770868 | 25.94 |
| Siec | 10/01/2023 | 6367 | EDF Energy, Pafiliwn Chwaraeon Saron, 02/12/23 hyd at 03/01/24, anfoneb rhif 000017820289 | 82.90 |
| Siec | 10/01/2023 | 6368 | EDF Energy, Pafiliwn Penygroes, 02/12/23 hyd at 03/01/24, anfoneb rhif 000017817899 | 34.00 |
| Siec | 10/01/2023 | 6379 | EDF Energy, Llifoleuadau Capel Hendre, 02/12/23 hyd at 03/01/24, anfoneb rhif 000017820747 | 42.81 |
| Siec | 10/01/2023 | 6370 | SIEC A GANSLWYD | 0.00 |
| Siec | 10/01/2023 | 6371 | Vision ICT Ltd, Lletya'r Wefan a chefnogaeth, 2024/25, anfoneb rhif 17693 | 322.50 |
| Siec | 10/01/2023 | 6372 | Next Gen Plumbing, atygyweirio'r toiled, anfoneb rhif 0004 | 175.00 |
| Siec | 10/01/2023 | 6373 | Cyngor Sir Gâr, DLO, Goleuadau, anfoneb rhif 97331240 | 3900.00 |

Cadeirydd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siec | 10/01/2023 | 6374 | Cyngor Sir Gâr, DLO, Arolygu'r Parciau yn flynyddol, anfoneb rhif 97332892 | 96.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siec | 10/01/2024 | 6375 | Morgan and Morgan, costau'r copïwr, anfoneb rhif 166486 a 200234 | 14.91 |
| Siec | 16/01/2024 | 6376 | D. Nicholas, Cyflog Ionawr 2024 | 2698.46 |
| Siec | 16/01/2024 | 6377 | S. Taylor, Cyflog Ionawr 2024 | 729.30 |
| Siec | 10/01/2024 | 6378 | Cyllid y Wlad, y mis a ddaw i ben ar Chwefror 5ed, 2024 | 779.36 |
| Siec | 10/01/2024 | 6379 | EDF Energy, Pafiliwn Llandybïe (MUGA), 02/12/23 hyd at 01/01/2024, anfoneb rhif 000017873716 | 18.53 |
| Siec | 11/01/2024 | 6380 | Aelodaeth Cymdeithas Clercod Cynghorau Cymuned 2024/25, anfoneb rhif MEM247016-1 | 298.00 |
| Siec | 11/01/2024 | 6381 | BT, talu'r diffyg yn TAW | 10.51 |
| Siec | 11/01/2024 | 6382 | SSE, Toiledau Penygroes 21/09 hyd at 31/12/23, anfoneb rhif 00230437 | 111.82 |
| Siec | 17/01/2024 | 6383 | K.D.Landscaping Services, gwasanaethu'r Cyfleusterau Cyhoeddus | 891.25 |

## (ii) Incwm, Gwariant ac Adroddiad Cyllidol.

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Praesept | 180000.00 | 180000.00 | **0.00** |
| Taflen TAW (Ad-daliad) | 12000.00 | 9863.32 | **-2136.68** |
| Llog banc | 800.00 | 5654.93 | **4854.93** |
| Cytundebau Llogi/ Grantiau | 7700.00 | 6700.00 | **-1000.00** |
| **Cyfanswm** | 200500.00 | 202218.25 | **1718.25** |

**GWARIANT**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Torri'r Glaswellt | £54,000.00 | £30,707.10 | **£23,292.90** |
| Cyflogau'r Staff a PAYE | £44,591.00 | £41,790.80 | **£2,800.20** |
| Gwasanaethau Swyddfa | £12,350.00 | £11,728.92 | **£621.08** |
| Yswiriant | £2,500.00 | £0.00 | **£2,500.00** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuadd, Mynwent) | £20,000.00 | £6,300.00 | **£13,700.00** |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau cyhoeddus, lleoliadau, | £33,550.00 | £26,611.70 | **£6,938.30** |

Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| parciau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd) | | | |
| Gwasanaethau a Thanysgrifau | £2,300.00 | £298.00 | **£2,002.00** |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £7,134.00 | £114.00 | **£7,020.00** |
| Costau Etholiad | £10,000.00 | £18,999.26 | **-£8,999.26** |
| Adran137 | £10,000.00 | £6,100.00 | **£3,900.00** |
| TAW | £12,000.00 | £5,206.00 | **£6,794.00** |
| Datblygu Cymunedol | £42,000.00 | £19,626.21 | **£22,373.79** |
| **Cyfanswm** | £250,425.00 | £167,481.99 | **-£82,943.01** |

Roedd yr aelodau wedi **penderfynu** cymeradwyo'r taliadau, a chymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a gytunwyd gyda chydsyniad y Cadeirydd.

**(iii) Balans y Cyfrifon:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR CYMUNED LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL** | | | | | |
| **Mantolen 2023-2024 - Cyfrifon o Ebrill 1af / Accounts from April 1st** | | | | | |
| | | | | | |
| **Paratowyd gan - D Nicholas** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31/3/2024** | | | | | |
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| **Taenlen Gyllid** | | | | **Balans o'r Llyfr Arian Parod £279,663.56** | |
| **Dygwyd ymlaen (balans cychwynnol yn y banc) gan gynnwys sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | **£312,607.63** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£202,218.25** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£514,825.88** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£158,097.65** |
| | | | | | |
| **Balans wrth Gau y Daenlen Gyllid** | | | | | **£356,728.23** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | £4,971.11 |

________________________
Cadeirydd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATGANIAD** | | | | | **£356,728.23** |
| | | | | | |
| **Nodyn ynghylch arbediad;** | | | | | |
| Cyflog Rhian Thomas £2,000 | | | | | |
| Ad-daliad oddiwrth EDF £1,600 | | | | | |

**Penderfynodd** yr Aelodau gymeradwyo’r gyllideb a’r taliadau fel rhai cywir.

**391.**

**Cyllid Adran 106.**

Nid oedd gan y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol unrhyw wybodaeth bellach i’w gynnig.

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Dim.

**392.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mawrth, Chwefror $27^{ain}$, 2024 am 6.30 yh, a chyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Amgylchedd ar Chwefror $15^{fed}$, 2024.

.

**393.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i’w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.20 yh.

Cadeirydd